**LC1266**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau yma'n pennu mai £20.00 yr wythnos yw'r swm wythnosol y mae'r awdurdodau lleol i ragdybio, yn niffyg amgylchiadau arbennig, y bydd ar breswylwyr sydd mewn llety a drefnwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ei angen at eu hanghenion personol. Maen nhw hefyd yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Prif Reoliadau") er mwyn darparu i bartneriaid sifil gael eu trin yn yr un modd â phobl briod ac i daliadau cymorth mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 gael eu diystyru fel cyfalaf ac fel incwm. Mae yna godiadau blynyddol hefyd yn y terfynau cyfalaf a'r diystyriad ar gyfer y rhai sy'n cael credyd pensiwn.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 7(a)(ii) yn cynnwys iaith ryw-benodol – "his civil partner". Yn yr achos yma, doedd dim angen y rhagenw, gan y byddai'r rhagenw yn y testun a oedd eisoes yn bod wedi bod yn gymwys, ac felly fe allai hyn fod wedi'i osgoi yn hawdd. Mae'r ymadrodd wedi'i gynnwys mewn diwygiad ar y ddeddfwriaeth bresennol a gafodd ei gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr, ac yn niffyg unrhyw wahaniaeth

yn y polisi fe farnwyd gan y rhai sy'n cynghori'r Gweinidog ei bod yn briodol cadw geiriad y diwygiadau yn gyson â'r diwygiadau a wnaed ar gyfer Lloegr. Pe bai'r ddeddfwriaeth wedi'i pharatoi ar yr un pryd, fe fyddai wedi bod yn bosibl ceisio dylanwadu ar waith drafftio rheoliadau Lloegr, ond deellir bod rheoliadau Lloegr wedi'u paratoi'n gynharach yn yr achos yma. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)].

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Mawrth 2006